**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

4 Medi 2020

Annwyl Mick,

**Cytundeb Rhyng-sefydliadol – Cyfarfodydd Gweinidogol ar yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol**

Cynhaliwyd cyfarfod o Gydbwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ym mis Mai eleni, ac fe wnaethom gytuno y dylai'r gwaith ar yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol ailddechrau. Yn ein cyfarfod dilynol ym mis Gorffennaf, gwnaethom gymeradwyo'r cynnydd a wnaed gyda'r Adolygiad, yn enwedig ym maes Osgoi a Datrys Anghydfod. Yn y cyfarfod hwnnw, galwais am sicrhau bod y manylion yn cael eu cwblhau'n gyflym er mwyn gallu rhoi canlyniadau'r adolygiad ar waith, ac i ddwysau'r ymdrechion o ran cynigion mecanweithiau Cysylltiadau Rhynglywodraethol. Er mwyn parhau â'r trafodaethau a chwblhau proses yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol yn brydlon – hon yw trydedd flwyddyn yr adolygiad – cytunodd y Cydbwyllgor y byddem yn dal ati i gwblhau'r manylion hyd yn oed yn ystod toriad yr haf.

O ganlyniad, mae'n bleser gennyf eich hysbysu bod y gweinidogion Cysylltiadau Rhynglywodraethol wedi cyfarfod am y tro cyntaf ar 12 Awst i gynnal cyfres o drafodaethau gan ganolbwyntio ar Osgoi a Datrys Anghydfod a mecanweithiau.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Gweinidog dros y Cyfansoddiad a Datganoli, Chloe Smith AS, Llywodraeth y DU, gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros y Cyfansoddiad, Ewrop a Materion Allanol, Mike Russell ASA, Llywodraeth yr Alban a'r Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Arlene Foster ACD, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon hefyd yn bresennol.

Roedd y trafodaethau yn y cyfarfod hwnnw'n gadarnhaol ac rwy'n croesawu'r datblygiad hir-ddisgwyliedig hwn. I barhau â'r momentwm byddwn yn ystyried manylion y testunau hyn ymhellach mewn cyfarfodydd sydd i'w cynnal ar 8 a 10 Medi.

Fel y nodwyd yn flaenorol, byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth am y datblygiadau hyn pan fydd y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig eraill wedi'u cwblhau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, David Rees AS.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition